# CYFRIFIADUREG TGAU

**TGAU Cyfrifiadureg**

**Pryd gaiff ei gyflwyno:** Un prynhawn yr wythnos
**Teitl y cymhwyster:** TGAU Cyfrifiadureg
**Corff Dyfarnu:** CBAC

**Cyflwyniad i'r pwnc**
Mae prinder cenedlaethol o fyfyrwyr sy'n gwneud cais am Addysg Uwch ac am waith mewn Cyfrifiadureg a meysydd cysylltiedig. Dyma gwrs dwy flynedd o hyd a gafodd ei lunio i roi sylfaen ar gyfer y sgiliau technegol, fel rhaglennu, sydd eu hangen yn y maes technoleg hanfodol hwn. Bydd y cwrs yn eich helpu i wneud y gorau o bŵer cyfrifiaduron, deall sut maen nhw'n gweithio, a defnyddio sgiliau rhaglennu i greu eich cymwysiadau eich hun.

**Cynnwys y Cwrs**
Bydd y dysgwyr yn astudio cymhwyster TGAU Cyfrifiadureg. Mae'n cynnwys 2 uned:

**Uned 1 – Deall Cyfrifiadureg**
Mae'r uned hon yn eich helpu i feithrin eich dealltwriaeth o agweddau ymarferol cyfrifiadura fel caledwedd, meddalwedd, systemau, rhwydweithiau, a chyfathrebu, wrth ddatblygu eich gallu i gynllunio, rheoli a chyflwyno datrysiadau ar gyfrifiadur i broblemau go iawn yn y byd o'ch cwmpas. Byddwch yn gwella eich sgiliau gweithio mewn tîm a rheoli prosiectau.

**Uned 2 – Meddwl Cyfrifiadurol a Rhaglennu**
Mae'r uned hon yn rhoi'r cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau rhaglennu, cyn eu defnyddio i greu datrysiad i broblem go iawn. Byddwch yn gwella eich sgiliau meddwl yn rhesymegol ac yn fathemategol.

**Adnoddau**
Mae disgwyl bod dysgwyr yn gallu defnyddio cyfrifiadur gartref gyda meddalwedd Microsoft Windows wedi'i osod arno a chysylltiad rhyngrwyd.

**Asesu**
**Uned 1: Deall Cyfrifiadureg**
Wedi ei hasesu trwy arholiad ar sgrin, 1 awr 30 munud o hyd. 50% o'r cymhwyster, 80 marc.

**Uned 2: Rhaglennu Cyfrifiadurol**
Wedi ei hasesu trwy arholiadau ar sgrin yn seiliedig ar friff sy'n cael ei rannu ymlaen llaw, 2 awr o hyd. 50% o'r cymhwyster, 80 marc.